COVID-19 Update: 9th April

In today's COVID-19 update from Cardiff Council: letter of thanks to all public sector workers; Cardiff Council teams supporting work to transform Principality Stadium into a temporary hospital; stay home, save lives; and Easter waste and recycling collections.

The COVID-19 Update will be back on Tuesday, 14th April. If anything urgent arises over the bank holiday weekend, it will be communicated to you separately.

Letter of thanks to all public sector workers

A joint letter of thanks has been sent to Cardiff Council staff, and other public sector workers, from the Leader of the Council, Cllr Huw Thomas, along with other leads on the Public Services Board.

The letter opens with the following:

Dear colleagues,

On behalf of the Cardiff Public Services Board we are writing to say simply: thank you.

Thank you for your efforts to keep the people of our city safe and well, for your work to protect and support our most vulnerable and for your work to keep essential public services running as we do all we can to stop the spread of this virus.

Thank you for your efforts to keep the people of our city safe and well, for your work to protect and support our most vulnerable and for your work to keep essential public services running as we do all we can to stop the spread of this virus.

To read the letter in full, click here:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/Your-Council/Strategies-plans-and-policies/Emergency-Planning-and-Resilience/coronavirus-information/Leader-update/Documents/Cardiff%20PSB%20message%20to%20Public%20Sector%20Staff.pdf

Cardiff Council teams supporting work to transform Principality Stadium into a temporary hospital

With the help from Cardiff Council Staff, the Principality Stadium is being transformed into a temporary hospital so that adequate ICU facilities can be provided to the NHS, as part of the on-going COVID-19 response.

The temporary hospital, named Dragon's Heart Hospital, is due to open this Saturday, April 11th, with space available for 300 beds. The capacity of the hospital can be increased up to 2000 beds if required.

Our First Point of Contact Hospital Service Team within Independent Living Services, known as The Pink Army, will be widening their presence to the Dragon's Heart Hospital. They will provide vital support to a range of patients who are being discharged. This will take place in addition to their continued support to Health colleagues and patients at the University Hospital of Wales.

Cardiff Council continues to prioritise the removal of NHS waste from 40 sites across the city. The skip hire service is no longer available to the public, as all of the skips are now reserved for the NHS and other essential service customers.

The work to transform the stadium into a hospital will be a 24/7 operation to ensure beds are available when they are required.

A letter has been delivered by staff to all residents living on Westgate Street and Fitzhamon Embankment, on behalf of the Council and Cardiff and the Vale University Health Board.

It has been made very clear that there is no increased risk to residents from living in the vicinity of the temporary facility. Questions and answers have been provided, as well as contact details in case residents have any further concerns.

Local members will continue to be updated as this project continues and further assistance will be provided if required.

Stay Home. Save Lives

Thank you to the majority of our park users who have been observing social distancing requirements.

We want to keep the city's parks open as long as possible, so people can exercise and get some fresh air - so please, keep using them responsibly.

From the end of this week, HM Coastguard will start supporting Cardiff Council and South Wales Police by patrolling the city with a clear message, broadcast by loud hailer, to ‘Stay home, save lives.'

The full message to be broadcast will say: "Stay home, save lives. Observe social distancing outside and stay 2 metres apart. Help protect the NHS".

Easter Waste and Recycling Collections

Your collection day will remain the same during Easter this year, but collection times may change so please ensure your waste is out by 6am.

Waste collection services will operate on both Good Friday (10 April) and Easter Monday (13 April).

Our waste collection team will work across the Easter bank holidays to ensure the collection service continues.

Recycling
We're asking that you continue to separate recyclable materials, just as you normally would, as we recognise that there would be no space in your black bin / red striped bags for these items if you didn't have a recycling bag collection.

Cardiff wants to become the best recycling city in the world, so we want you to continue to use your green recycling bags to keep up good habits for when the crisis is over.

The following items can go in your green recycling bag:
- ✓ Cardboard Easter egg boxes
- ✓ Plastic packaging from Easter egg boxes
- ✓ Foil (please make sure that it is clean and scrunched up in a ball)

If you're unsure if an item can go into your recycling bag, please check our Recycling A-Z:
https://www.cardiff.gov.uk/ENG/resident/Rubbish-and-recycling/A-Z-of-recycling/Pages/default.aspx

Diweddariad COVID-19: 9 Ebrill

Dyma'r crynodeb COVID-19 diweddaraf gan Gyngor Caerdydd, sy'n cynnwys: llythyr o ddiolch i bob gweithiwr y sector cyhoeddus; timau Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r gwaith i drawsnewid Stadiwm Principality yn ysbyty dros dro; arhoswch gartref, achubwch fywydau; a casgliadau gwastraff ac ailgylchu dros y Pasg.

Bydd Diweddariad COVID-19 yn ôl ddydd Mawrth, 14 Ebrill. Os daw unrhyw beth brys dros benwythnos gŵyl y banc, cewch gyfathrebiad ar wahân.

Llythyr o ddiolch i bob gweithiwr y sector cyhoeddus

Mae llythyr o ddiolch wedi'i anfon at staff Cyngor Caerdydd, a gweithwyr y sector cyhoeddus eraill, gan Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd Huw Thomas, yn ogystal ag arweinwyr eraill ar y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Mae'r llythyr yn dechrau â'r canlynol:

Annwyl gydweithwyr,

Ar ran Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Caerdydd, rydym yn ysgrifennu i ddweud yn syml: diolch yn fawr.

Diolch yn fawr am eich ymdrechion i gadw pobl ein dinas yn ddiogel ac yn dda, am eich gwaith yn diogelu a chynorthwyo ein pobl fwyaf agored i niwed ac am eich gwaith yn cadw'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fynd wrth i ni wneud popeth y gallwn ni i atal lledaenu'r feirws.

Diolch yn fawr am eich ymdrechion i gadw pobl ein dinas yn ddiogel ac yn dda, am eich gwaith yn diogelu a chynorthwyo ein pobl fwyaf agored i niwed ac am eich gwaith yn cadw'r gwasanaethau cyhoeddus hanfodol i fynd wrth i ni wneud popeth y gallwn ni i atal lledaenu'r feirws.

I ddarllen y llythyr yn llawn, cliciwch yma:
https://www.cardiff.gov.uk/CYM/Eich-Cyngor/Strategaethau-cynlluniau-a-pholisiau/Cynllunio-at-Argyfwng-a-Gwydnwch/gwybodaeth-ynghylch-coronafeirws/Diweddariad-yr-Arweinydd/Documents/Cardiff%20PSB%20message%20to%20Public%20Sector%20Staff%20Welsh.pdf

Timau Cyngor Caerdydd yn cefnogi'r gwaith i drawsnewid Stadiwm Principality yn ysbyty dros dro

Gyda help gan Staff Cyngor Caerdydd, mae Stadiwm Principality yn cael ei drawsnewid yn ysbyty dros dro fel y gellir cynnnig cyfleusterau Gofal Dwys digonol i'r GIG, fel rhan o'r ymateb parhaus i 'COVID-19'.

Disgwylir i'r ysbyty dros dro, sydd wedi ei enwi'n Ysbyty Calon y Ddraig, agor y Sadwrn hwn ar 11 Ebrill, gyda lle i 300 o welyau. Gellir cynyddu nifer y gwelyau yn yr ysbyty i 2000 os bydd angen.

Bydd ein Tîm Pwynt Cyswllt Cyntaf o fewn y Gwasanaethau Byw'n Annibynnol, o'r enw Y Fyddin Binc, yn ehangu eu presenoldeb i'r Ysbyty Calon y Ddraig. Byddant yn darparu cefnogaeth hanfodol i ystod o gleifion sy'n cael eu rhyddhau. Bydd hyn yn digwydd yn ychwanegol at eu cefnogaeth barhaus i gydweithwyr Iechyd a chleifion yn Ysbyty Athrofaol Cymru.

Mae Cyngor Caerdydd yn parhau i flaenoriaethu gwaredu gwastraff y GIG o 40 safle ledled y ddinas. Nid yw'r gwasanaeth llogi sgipiau ar gael mwyach i'r cyhoedd, gan fod yr holl sgipiau bellach wedi'u cadw ar gyfer y GIG a chwsmeriaid gwasanaethau hanfodol eraill.

Bydd y gwaith i drawsnewid y stadiwm yn ysbyty yn orchwyl 24/7 er mwyn sicrhau bod gwelyau ar gael pan fydd eu hangen.

Mae llythyr wedi'i ddanfon gan staff at yr holl breswylwyr sy'n byw ar Heol y Porth a Fitzhamon Embankment heddiw, ar ran y Cyngor a Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro.

Fe'i gwnaed yn glir iawn nad oes mwy o berygl i breswylwyr sy'n byw yng nghyffiniau'r cyfleuster dros dro. Mae cwestiynau ac atebion wedi'u darparu, yn ogystal â manylion cyswllt, rhag ofn bod gan y preswylwyr bryderon ychwanegol.

Bydd aelodau lleol yn parhau i gael y newyddion diweddaraf am y project wrth iddo fynd rhagddo a rhoddir rhagor o gymorth os bydd angen.

Arhoswch Gartref. Achubwch Fywydau

Diolch i'r mwyafrif o ddefnyddwyr ein parciau sydd wedi bod yn cydymffurfio â gofynion ymbellhau cymdeithasol.

Ry'n ni eisiau cadw parciau'r ddinas ar agor cyn hired â phosib, fel y gall pobl ymarfer corff a chael awyr iach – felly plîs, defnyddiwch nhw'n gyfrifol.

O ddiwedd yr wythnos hon, bydd yr Gwylwyr y Glannau EM yn dechrau cefnogi Cyngor Caerdydd a Heddlu De Cymru drwy fynd o stryd i stryd yn y ddinas gyda neges glir dros uchelseinydd - 'Arhoswch Gartref, Achubwch Fywydau'.

Bydd y neges lawn i'w darlledu yn dweud: "Arhoswch Gartref, Achubwch Fywydau. Cofiwch gadw at y gofynion ymbellhau cymdeithasol y tu allan a chadw 2 fetr i ffwrdd o eraill. Helpwch i amddiffyn y GIG".

Casgliadau Gwastraff ac Ailgylchu dros y Pasg

Bydd eich diwrnod casglu yn aros yr un peth yn ystod y Pasg eleni, ond mae'n bosibl y bydd amseroedd casglu yn newid felly sicrhewch fod eich gwastraff allan erbyn 6am.

Bydd gwasanaethau casglu gwastraff yn gweithredu ar Ddydd Gwener y Groglith (10 Ebrill) a Dydd Llun y Pasg (13 Ebrill).

Bydd ein casglwyr sbwriel yn gweithio ar draws gwyliau banc y Pasg i sicrhau bod y gwasanaeth casglu yn parhau.

Ailgylchu
Rydym yn gofyn i chi barhau i wahanu deunyddiau ailgylchadwy, yn union fel y byddech fel arfer, oherwydd rydym yn cydnabod na fyddai unrhyw le yn eich bin du/ bagiau streipiau coch ar gyfer yr eitemau hynny pe na baech yn cael casgliad bagiau ailgylchu.

Mae Caerdydd am fod y ddinas ailgylchu orau yn y byd, felly rydym am i chi barhau i ailgylchu yn eich bagiau gwyrdd ailgylchu, er mwyn cynnal arferion da ar gyfer pan fydd yr argyfwng drosodd.

Gall yr eitemau canlynol fynd yn eich bag ailgylchu gwyrdd:
- ✓ Blychau Cardfwrdd Wyau Pasg
- ✓ Pecynnu plastig o flychau wyau Pasg
- ✓ Ffoil (gwnewch yn siŵr ei fod yn lân ac wedi ei wasgu yn belen.

Os nad ydych chi'n siŵr a ellir ailgylchu eitem, gwiriwch ein A-Y ailgylchu:

https://www.caerdydd.gov.uk/CYM/preswylydd/Sbwriel-ac-ailgylchu/A-Y-o-ailgylchu/Pages/default.aspx